

Ffurflen ymateb rheolwyr



At ddefnydd Archwilio Cymru yn unig	
Corff a archwilir	Cyngor Gwynedd
Enw'r archwiliad	Defnyddio data wrth gynllunio cyllideb gwasanaeth preswyl oedolion
Dyddiad cyhoeddi	18/08/2026

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
A1	Dylai'r Cyngor gryfhau cadernid ei gyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw drwy ddefnyddio, a dangos sut y mae wedi defnyddio, data cost a galw sydd ar gael i lywio penderfyniadau cyllidebol dros y tymor byr a chanolig (Paragraffau 15 i 19).	Fel Cyngor rydym yn defnyddio gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ar gyfer pwrpas cyllidebu. Mae'r Pennaeth Cyllid wedi comisiynu gwaith gan ddarparwr allanol i weld sut mae costau fesul uned yn cymharu gyda'r teulu o awdurdodau tebyg yn unol â chyfrifoldebau statudol y Pennaeth Cyllid yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r gofyn	31/03/2027	Pennaeth Cyllid	

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		statudol ar y Cyngor yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cadw'r ffordd y mae'n defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithiol ac effeithlon dan adolygiad parhaus. Mae hyn yn cynnwys costau fesul uned yn y maes gofal ond nid y maes hwnnw yn unig. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn gan adolygu dychweliadau ffurflen RO 2025 y Cyngor a'i gymharu gyda teulu o awdurdod gyda nodweddion tebyg. Camau nesaf y gwaith hwn fydd i'r Tîm Rheoli adrannol ystyried y canlyniadau ym Medi 2026 cyn i'r Pennaeth adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol cyn diwedd 2026. Bydd modd defnyddio'r gwaith i asesu sut mae costau uned Gwynedd nid yn unig yn cymharu gydag awdurdodau lleol eraill ond hefyd y tueddiadau dros amser. Yn ddibynnol ar yr ymateb i'r asesiad			

Cyf	Argymhelliad	Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig	Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd	Swyddog cyfrifol (teitl)	Archwilio Cymru yn unig
		cychwynnol yma bydd y Pennaeth Cyllid yn penderfynu os yw am argymell fod y gwaith yn parhau mewn blynyddoedd dilynol			